



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

**Llety ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru**  
**- Y seiliau ar gyfer y dyfodol**  
**Adroddiad cyfuno terfynol**

**CCLL 07/07 AY**

---

<b>1</b>	<b>Cyflwyniad .....</b>	<b>3</b>
1.1	Amcan y prosiect .....	3
1.2	Hanes llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn .....	4
1.3	Dulliau .....	5
1.4	Strwythur yr adroddiad hwn .....	6
<b>2</b>	<b>Darpariaeth llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn ar hyn o bryd .....</b>	<b>8</b>
2.1	Darparwyr llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn .....	8
2.2	Nodweddion llety .....	10
2.3	Gwasanaethau a gynigir gan ddarparwyr llety .....	12
2.4	Amrywiadau gofodol .....	13
2.4.1	Materion Gwledig .....	16
2.5	Cyllid ar gyfer llety .....	16
2.6	Crynodeb o dystiolaeth .....	17
<b>3</b>	<b>Galw am lety ar hyn o bryd ac i'r dyfodol .....</b>	<b>19</b>
3.1	Galw am lety arbenigol ar hyn o bryd .....	19
3.1.1	Amrywiaethau gofodol .....	21
3.2	Y newidiadau demograffig .....	22
3.3	Anghenion tai a gofal sy'n gysylltiedig a henaint .....	23
3.4	Dyheadau pobl hŷn .....	24
3.5	Crynodeb o dystiolaeth .....	25
<b>4</b>	<b>Goblygiadau ar gyfer darpariaeth llety yn y dyfodol .....</b>	<b>27</b>
4.1	Ailfodelu gwasanaethau i gwrdd a dyheadau newidiol .....	27
4.2	Cynnal tai o safon .....	29
4.2.1	Problemau gyda perchen feddianwyr .....	29
4.3	Crynodeb .....	30
<b>5</b>	<b>Argymhellion polisi .....</b>	<b>32</b>
5.1	Argymhellion .....	33
<b>6</b>	<b>Geirfa .....</b>	<b>35</b>

# 1 Cyflwyniad

---

Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru y strategaeth gyntaf erioed ar gyfer pobl hŷn yn 2003. Roedd yn cydnabod bod proffil demograffig newidiol Cymru yn golygu bod yn rhaid i bolisïau a rhaglenni'r dyfodol adlewyrchu anghenion cymdeithas sy'n heneiddio. Roedd hefyd yn pwysleisio'r rôl bwysig y mae tai, gofal cartref a chefnogaeth yn eu chwarae wrth sicrhau annibyniaeth ac ansawdd bywyd pobl hŷn yn y dyfodol.

Dilynwyd hyn gan adolygiad o dai ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru gan Bwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio'r Cynulliad, oedd yn argymhell:

"Dylai Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru gomisiynu astudiaeth sylfaen ar frys er mwyn casglu gwybodaeth ar y ddarpariaeth bresennol, categori a dosbarthiad tai gwarchod a llety arbenigol eraill ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru. Dylai'r astudiaeth hefyd archwilio gallu'r gwahanol gategoriâu o dai gwarchod (a gofal preswyl) i ddarparu cymorth i bobl hŷn gyda gwahanol lefelau o anghenion fel y gellir datblygu golwg fanwl o bwrpas a rôl pob math o ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ac yn y dyfodol."<sup>1</sup>

Comisiynwyd yr astudiaeth hwn o ganlyniad i'r argymhelliad hwn.

## 1.1 Amcan y prosiect

Amcan yr astudiaeth hwn yw helpu i sicrhau bod polisi'r dyfodol yn cael y cyfle gorau i lywio darpariaeth llety a'r gwasanaethau meddygol, gofal a chymorth cysylltiedig ar gyfer pobl hŷn mewn ffordd sydd yn cwrdd â'u hanghenion cysylltiedig â henaint. At ddiben yr astudiaeth hwn fe ddiffinnir llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn fel anheddau sydd wedi eu cynllunio neu addasu'n benodol i gwrdd ag anghenion cysylltiedig â henaint. Cyfeiria 'Pobl hŷn' yn bennaf at bobl 65 oed neu'n hŷn, er bod rhai ffynonellau data'n cychwyn yn 60 oed.

Mae'r astudiaeth wedi archwilio gallu'r gwahanol gategoriâu o dai gwarchod (a gofal preswyl) i ddarparu cymorth i bobl hŷn gyda gwahanol lefelau o anghenion fel y gallwn gael golwg fanylach o bwrpas a rôl pob math o ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Roedd y brieff yn gofyn am ystyriaeth o ddyheadau pobl i'r dyfodol a'u gallu a pharodrwydd tebygol i ddiwallu eu hanghenion, trwy gyfrwng adolygiad tystiolaeth sy'n bodoli eisoes a dadansoddiad eilaidd o arolygon.

Nod allweddol y gwaith hefyd oedd creu cronfa ddata gyfredol o ddarparwyr llety ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru, gan nad oes un yn bodoli ar hyn o bryd ar gyfer defnyddwyr

<sup>1</sup> Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Gorffennaf 2004) *Tai ar gyfer pobl hŷn* Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru

gwasanaeth, defnyddwyr posib, comisiynwyr neu wneuthurwyr polisi. Gan ddechrau gyda cronfa ddata o gynlluniau tai a gofal gan Gwnsler Llety'r Henoed, rydym wedi ymestyn hyn a chreu cronfa ddata gyda dros 2,000 o ddarparwyr llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn.

Mae'r ymchwil hefyd wedi archwilio amrywiadau daearyddol yn y galw presennol am wahanol fathau o lety cyhoeddus a phreifat ac mae'n dadansoddi materion gwledig penodol, yn arbennig y gwahaniaeth rhwng anghenion a phatrymau darpariaeth mewn ardaloedd gwledig a threfol.

Er mwyn gosod y prosiect mewn cyd-destun, fe gynhaliwyd gorolwg hanesyddol o adolygiad llenyddiaeth<sup>2</sup>.

## 1.2 Hanes llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn

Yn hanesyddol, tai gwarchod ar gyfer rhent oedd yn dominyddu darpariaeth tai ar gyfer pobl hŷn o'r 1950au hwyr i ganol y 1980au. Roedd cynlluniau yn cael eu diffinio'n bennaf gan gyfleusterau corfforol, ac yn cael eu rhannu i gynlluniau Categori Un - byngalos gyda chyfleusterau cymunedol cyfyng a dim warden preswyl yn aml, a chynlluniau Categori Dau – blociau o fflatiau fel arfer gydag amrywiaeth o gyfleusterau cymunedol a warden preswyl.

Yn y 1980au, daeth rhai cynlluniau yn anos i'w gosod, fe gododd cyfartaledd oedran tenantiaid gan arwain at angen am fwy o gymorth ar gyfer poblogaeth oedd yn heneiddio ac o ganlyniad yn fwy bregus, a gwelwyd amrywiadau cynyddol yn y gwasanaethau a gynigiwyd. Achosodd hyn i rai o'r prif ddarparwyr ddatblygu 'cynlluniau tai gyda gofal' oedd yn cynnig adnoddau a gwasanaethau ychwanegol, fel gwasanaeth prydau bwyd ac adnoddau cymorth ymdrochi. Cyfeiriwyd yn gyffredinol at y cynlluniau hyn fel tai gyda gofal ychwanegol ac yna tai gofal ychwanegol. Roedd rhai'n defnyddio'r dynodiad 'Categori dau a hanner', gan awgrymu bod y fath gynlluniau mewn continwmm rhwng tai gwarchod Categori Dau confensiynol a gofal preswyl Categori Tri, a ddarparir dan Gyfarwyddiadau Deddf Cymorth Gwladol 1948.

Mae cryn ymdrech wedi ei wneud i foderneiddio rôl y warden mewn cynlluniau gwarchod confensiynol, trwy geisio sefydlu rôl mwy proffesiynol fel cyswllt rhwng tenantiaid a gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol. Gwelwyd ymdrech hefyd i newid oriau gwaith newidiol am 'oriau swyddfa' a symud tuag at staff amhreswyl. Mewn sawl man mae'r ddadl ynglŷn a rôl y warden (a elwir yn aml yn rheolwr cynllun bellach) wedi ei chynnal heb ystyried diffiniad o bwrpas. Bydd anghenion cynllun sy'n canolbwyntio ar anghenion pobl hŷn cymharol neu hynod fregus ac oedrannus iawn yn wahanol iawn i gynllun sydd wedi ei anelu at bobl hŷn annibynnol a llai oedrannus.

<sup>2</sup> Contact Consulting (2006) *An historical introduction to specialised housing for older people* Adroddiad heb ei gyhoeddi ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mewn cyd-destun ehangach, roedd darpariaeth arhosiad hir mewn ysbyty i bobl hŷn yn dirwyn i ben ac roedd pryderon yn cynyddu ynglŷn â chost, gallu ac addasrwydd sylfaenol gofal preswyl gyda phwyslais ar ddarparu gofal o fewn y gymuned. Mae cynlluniau arloesol, fel yr un gan Gyngor Dinas Wolverhampton o'r 1990au cynnar, wedi ceisio ail-darpariaeth llwyr o fewn gofal preswyl gyda model gofal ychwanegol.

Yn Lloegr bu cryn dwf yn natblygiad cynlluniau gofal ychwanegol, wedi ei hybu'n rhannol gan gefnogaeth a pheth cyllid gan yr Adran Iechyd. Datblygwyd rhai cynlluniau yng Nghymru, gyda chynnydd sylweddol mewn ceisiadau am arian ar gyfer cynlluniau gofal ychwanegol yn y blynyddoedd diweddar. Mae hyn yn deillio'n bennaf o flaenoriaethau cyllid rhaglen grant tai cymdeithasol Llywodraeth y Cynulliad a chyhoeddi canllawiau. Cafodd nifer o gynlluniau eu cyllido y llynedd ac mae'r rownd ddiweddaraf newydd gau gyda chynigion gan bob awdurdod lleol.

Ochr yn ochr â'r datblygiadau hyn mewn tai arbenigol gwelwyd tyfiant mewn gwasanaethau Gofal a Thrwsio i gefnogi perchen feddianwyr hŷn. Mae'r mwyafrif o aelwydydd hŷn yng Nghymru yn perchen eu tai a disgwylir i hyn barhau i gynyddu. Datblygodd gwasanaethau Gofal a Thrwsio yng Nghymru yn gyffredinol o'r 1980au hwyr, gan ennill sylw cenedlaethol yn y blynyddoedd diwethaf trwy fentr Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi croesawu Gofal a Thrwsio yn gyfan gwbl mewn modd nas gwelir mewn unrhyw fan arall yng Ngwledydd Prydain.

Tra bod yn rhaid rhoi blaenoriaeth i ganlyniadau cyfalaf ac incwm ail ffurfio patrwm darpariaeth llety arbenigol o fewn strategaethau i gwrdd ag anghenion llety a gofal pobl hŷn yng Nghymru yn y dyfodol, rhaid i'r rhain gael eu gweld o fewn cyd-destun y mwyafrif o ddeiliadaeth mwyafrifol a'r gwasanaethau hynny sy'n ceisio cefnogi perchen feddianwyr.

Mae'r holl ddatblygiadau hyn wedi digwydd heb ddiffiniad eglur o bwrpas y gwahanol fathau o ddarpariaeth a chydag ychydig iawn o weledigaeth strategol ar gyfer yr holl system a fydd yn croesawu gwasanaethau i'r rhai hynny mewn tai cyffredinol, trwy'r gwahanol fathau o dai gwarchod, i ofal cartrefi preswyl a nyrsio. Mae datblygiad strategaeth y person hŷn yng Nghymru, yr adolygiad o dai ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru a gynhaliwyd gan Bwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio'r Cynulliad a chomisiynu'r astudiaeth hwn yn rhoi'r cyfle i ni fynd i'r afael a'r diffygion hyn.

### 1.3 Dulliau

I gwrdd ag amcanion yr ymchwil, fe gyflawnwyd y tasgau canlynol:

- adolygiad o ddiffiniadau o lety ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru trwy gyfrwng dau weithdy gyda chyfranogwyr o awdurdodau lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac Age Concern;

- arolwg manwl o 548 o ddarparwyr llety ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru (yn cynrychioli ymateb o 31%), yn holi am y cynllun, ei gyfleusterau, preswylwyr a staff;
- ymweliadau astudiaeth achos trylwyr i 19 cynllun neu gartref yn cynrychioli pob math o lety ar gyfer pobl hŷn, mewn ardaloedd trefol a gwledig, a chyda darparwyr cyhoeddus a phreifat. Yn ystod pob ymweliad, cawsom gyfweiliad gyda rheolwr y cynllun a staff rheoli o'r sefydliad ac fe gynhaliwyd grŵp ffocws gyda'r preswylwyr;
- dadansoddiad o'r data demograffig i ragweld anghenion tai, gofal a chymorth yn y dyfodol;
- adolygiad o lenyddiaeth ar ddatblygiad hanesyddol llety ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru ac ar ddyheadau tai pobl hŷn; a
- chyfweiliadau gyda 12 rhan ddeiliad allweddol i ychwanegu at yr argymhellion terfynol.

Mae'r prosiect hwn hefyd yn gysylltiedig gyda dau arall sy'n cael eu cyflawni ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, i'w cwblhau yn 2007:

- cynhyrchu canllawiau strategol cenedlaethol i helpu awdurdodau lleol i gynllunio eu trefniadau tai a gwasanaethau cysylltiedig ar gyfer pobl hŷn (ECOTEC Research & Consulting a Contact Consulting); a
- mapio darpariaeth nwyddau a gwasanaethau sy'n gysylltiedig a thai a chyngor i bobl hŷn yn eu cartrefi (Centre for Sustainable Urban and Regional Futures, Prifysgol Salford).

#### 1.4 Strwythur yr adroddiad hwn

Rydym wedi cynhyrchu cyfres o adroddiadau llai yn codi o'r tasgau uchod sy'n cynnig trafodaeth fanylach o'r dystiolaeth a gasglwyd:

- adroddiad ar gasgliadau holiadur ar gyfer darparwyr llety, *Darparwyr a phreswylwyr llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru*;
- *llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru: Adroddiad ar yr astudiaethau achos*;
- adroddiad mwy sylweddol yn cynnwys gwybodaeth demograffig ehangach, "*Anghenion tai a gofal pobl hŷn yng Nghymru yn y dyfodol*";
- adolygiad o lenyddiaeth, *Cyflwyniad hanesyddol i dai arbenigol ar gyfer pobl hŷn*; a
- phapur byr ar ddyheadau pobl hŷn.

Mae'r adroddiad cyfuno hwn yn dwyn ynghyd y dystiolaeth allweddol o'r rhain ac yn dod i gasgliadau a chynnig argymhellion. Mae gweddill yr adroddiad hwn yn edrych ar:

- ddarpariaeth llety ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru ar hyn o bryd;
- galw presennol am lety ac i'r dyfodol;
- goblygiadau ar gyfer darpariaeth llety yn y dyfodol;
- argymhellion polisi; a
- geirfa o dermau allweddol.

## 2 Darpariaeth llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn ar hyn o bryd

Mae'r adran hon yn dadansoddi'r ddarpariaeth llety arbenigol sydd ar gael ar hyn o bryd ar draws Cymru. Daw'r wybodaeth yn bennaf o atebion i'r holiadur, ond hefyd o grwpiau ffocws, ymweliadau astudiaeth achos a'r adolygiad o lenyddiaeth. Ar ôl amlinellu'r prif fathau o lety ar gyfer pobl hŷn, mae'r adran yn ystyried eu nodweddion, gwasanaethau a rhai amrywiaethau gofodol ac yn amlinellu'r sefyllfa cyllido.

### 2.1 Darparwyr llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn

Yn ôl categori llety, roedd bron i hanner (47%) y cynlluniau a atebodd yr holiadur o dai gwarchod confensiynol (Tabl 2.1), gan adlewyrchu goruchafiaeth y math hwn o lety ar draws Cymru. Tai dynodedig a gofal preswyl oedd y darparwyr mwyaf wedyn, pob un yn cynrychioli llai na 18% o atebydd.

**Tabl 2.1 Nifer a chanran atebyddion i'r holiadur yn ôl categori llety**

Categori llety	Cynlluniau atebol	Canran o'r cyfanswm
Tai dynodedig	96	17.5%
Tai gwarchod confensiynol	255	46.5%
Abbeyfield	20	3.6%
Gofal ychwanegol mewn tai gwarchod	38	6.9%
Tai gofal ychwanegol dibyniaeth cymysg	1	0.2%
Tai gofal ychwanegol dibyniaeth uchel	3	0.5%
Gofal preswyl	97	17.7%
Cartref Nyrsio	12	2.2%
Heb ei ddynodi	26	4.7%
<b>Cyfan</b>	<b>548</b>	<b>100.0%</b>

*Ffynhonnell: Ecotec Research & Consulting (Hyd 2006) Seliâu ar gyfer y dyfodol: Darparwyr a phreswylwyr llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru, Tabl 1.2*

Mae gan yr wyth categori llety hwn, gydag ychwanegiad o un math o lety (gofal ychwanegol ffordd o fyw) wedi eu cydnabod trwy gyfrwng y gweithdy diffiniol ond heb dystiolaeth o'n hymchwil ni, y nodweddion canlynol:

- **Tai dynodedig:** stoc cyffredinol i'w rentu, byngalos fel arfer,. Wedi eu dynodi ar gyfer pobl hŷn annibynnol.
- **Tai gwarchod confensiynol:** poblogaeth annibynnol yn gyffredinol mewn unedau hunan gynhaliol, wedi eu rhentu fel arfer ond gyda rhai ar ffurf les



ddaliad, ond yn rhannu cyfleusterau cymunedol ac wedi eu staffio gan reolwr cynllun.

- **Tai Abbeyfield:** math unigryw o dai gwarchod, pob uned wedi ei rentu, yn cynnwys rheolwr tŷ a staff glanhau ac arlwyo, gyda phoblogaeth benywaidd hŷn gan mwyaf ond poblogaeth sy'n fwy annibynnol.
- **Gofal ychwanegol mewn tai gwarchod:** math o dai gwarchod gyda chyfleusterau gofal ychwanegol ar gyfer poblogaeth gyda dibyniaethau cymysg, fel arfer yn darparu gwasanaethau a gweithgareddau eraill.
- **Tai gofal ychwanegol dibyniaeth cymysg:** tebyg i'r math uchod o ofal ychwanegol ond gyda phoblogaeth cymysg, wedi ei rannu'n fras i un trydydd heb anghenion gofal ar hyn o bryd, un trydydd gydag anghenion gofal isel i ganolig a thrydydd gydag anghenion gofal canolig i uchel.<sup>3</sup>
- **Tai ffordd o fyw gofal ychwanegol:** math dyheadol o dai gofal ychwanegol sy'n darparu tai ar gyfer poblogaeth dibyniaeth cymysg ond yn darparu rhaglen amrywiol o weithgareddau hamdden, cymdeithasol a diwylliannol.
- **Tai gofal ychwanegol dibyniaeth uchel:** math o dai gofal ychwanegol ble mae gan y mwyafrif o breswylwyr, hŷn na mewn lleoliadau eraill, lefelau canolig i uchel o anghenion gofal.
- **Cartrefi gofal cofrestredig:** llety a staffio sy'n cwrdd â safonau Arolygaeth Safonau Gofal Cymru (CSIW) i gynnig llety i boblogaeth gydag anghenion gofal sydd ddim yn galw am gartrefi nyrsio.
- **Cartrefi nyrsio:** cyfleusterau cofrestredig sy'n darparu gwasanaethau nyrsio neu ofal personol i bobl sydd yn eiddil neu a salwch cronig, ond nid o anghenraid yn boblogaeth hŷn, eto'n cwrdd â safonau CSIW.

Er bod y categorïo hwn yn ymddangos yn daclus iawn, mae'r realiti yn llai eglur. Mae rhai cynlluniau yn cwmpo rhwng dau gategori neu'n cynnwys gwasanaethau neu gyfleusterau sydd fel arfer i'w gweld mewn gwahanol fath o lety. Er enghraifft, yn yr holiadur fe ddynododd dau gynllun tai eu bod yn cynnwys spa. Yn ystod yr ymweliadau astudiaeth achos, roedd hi'n amlwg bod diffyg diffiniadau cyffredin o bwrpas gan y darparwyr llety.

<sup>3</sup> Profiad tai gwarchod yn y gorffennol yw bod cyfartaledd a chyfanswm lefelau dibyniaeth yn cynyddu dros gyfnod o amser. Mae'r posibilrwydd bod hyn yn digwydd mewn tai gofal ychwanegol yn gryfach. Tra bod cynlluniau'n cael eu comisiynu ar y cychwyn gyda phoblogaeth wedi ei dosbarthu yn gyfartal rhwng y rhai hynny heb ddim anghenion gofal, y rhai hynny gyda lefel ganolig o anghenion gofal a'r rhai hynny gydag anghenion gofal uchel, fe all y balans dueddu tuag at grynodiad mwy o'r rhai hynny gydag anghenion gofal uchel. Dengys profiad mewn cynlluniau gofal ychwanegol sydd wedi ei sefydlu ers mwy o amser nad yw'r tuedd hwn yn anorfod ond mae angen ymrwymiad cryf i gymuned gymysg a gaiff ei adlewyrchu trwy bolisi ac ymarfer asesiad a dyraniad er mwyn rheoli'r duedd hon. Wrth i'r rhai hynny sy'n aros yn y cynllun heneiddio a dringo'r raddfa dibyniaeth bydd angen gwneud cyfran uchel o ddyraniadau newydd i'r rhai hynny sydd ag anghenion gofal isel neu ganolig. Caiff hyn ei herio gan y rhai hynny sy'n dadlau mai'r bobl gydag anghenion gofal mwyaf ddylai fod yn flaenoriaeth wrth ddyrannu'r adnodd prin hwn. Fodd bynnag, os ildir i'r ddadl hon, bydd natur unigryw y model gofal ychwanegol dan fygythiad: er mwyn cynnal ei nodwedd fel man atyniadol i bobl fyw a derbyn y gofal sydd ei angen arnynt mae parhad cymuned gytbwys yn hanfodol.

Golygodd hyn ei bod yn aneglur pa fathau o bobl hŷn oedd yn gweddu orau i bob math o gynllun.

Mae datblygiad yr amrywiaeth yma o ddarpariaeth yn nodweddiadol o'r hyn sydd ar gael yn Lloegr a Chymru ers yr Ail Ryfel Byd, o ran math o ddarpariaeth ac anghenion cefnogaeth cynyddol preswylwyr. Mae natur neilltuol y datblygiad hwn wedi golygu ei bod hi'n fwy fwy anodd i ddefnyddwyr, darparwyr a chomisiynwyr i gael gwybodaeth cywir am ddarpariaeth a'r dewisiadau sydd ar gael.

## 2.2 Nodweddion llety

Ar draws yr holl gategoriâu llety a nodwyd yn yr holiadur, roedd mwyafrif llethol yr unedau yn cael eu rhentu, gan gynrychioli 80% o stoc, ac yna rhan-berchnogaeth (15%) a les ddaliad (dim ond 5%)<sup>4</sup>.

Yn y cynlluniau atebol roedd bron i dair gwaith cymaint o fflatiau ac oedd yna o fyngalos (73% o fflatiau o'u cymharu a 27% o fyngalos). Mae hyn yn nodweddu adeiladu llawer o ddarpariaeth arbenigol at gyfer pobl hŷn, yn aml gyda llety yn gysylltiedig ag ardaloedd cyhoeddus canolog. Fodd bynnag, o edrych ar y categori llety, roedd byngalos yn fwy cyffredin mewn tai dynodedig na phob math arall o gynllun, yn cyfrif am bron i hanner yr unedau (46%).

O ran maint, unedau un llofft oedd y math mwyaf cyffredin o lety, yn cyfrif am bron i ddwy ran o dair (65%) o stoc. Fodd bynnag, roedd 12% o unedau ar draws Cymru yn fflatiau un ystafell, sydd fel arfer y lleiaf poblogaidd ac felly'r math anoddaf o uned i'w osod. Ar y llaw arall roedd gan 23% o unedau ddwy lofft neu fwy, yn addas ar gyfer cyplau gyda gwahanol anghenion iechyd ac i unigolion gydag ymwelwyr cyson.

Mae symudedd pobl yn arafu yn gyffredinol wrth iddynt dyfu'n hyn, felly mae cael llety hygyrch yn ystyriaeth bwysig. Fe ofynnem ni am dri math o safon hygyrchedd yn ein harolwg: safonau Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (CSIW); mynediad i gadeiriau olwyn; a mynediad safonol. Mae'r CSIW yn rheoleiddio gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan gynnwys safonau ar gyfer cartrefi gofal i bobl hŷn. Dyma'r safonau uchaf o'r tri a restrir ac, ar gyfer adeiladau, yn cynnwys darpariaethau manwl ynglŷn â maint a dodrefn i ystafelloedd unigol, ardaloedd cymunol, toiledau a chyfleusterau ymolchi hygyrch, ac addasiadau ac offer, er enghraifft rampiau a rheiliau gafael.

Ar draws Cymru dim ond mynediad safonol oedd gan bron i hanner (49%) yr unedau, er bod dros un rhan o dair (35%) yn cwrdd â safonau CSIW. Yn ôl categori llety, cartrefi nyrsio a gofal preswyl oedd â'r cyfran uchaf o unedau oedd yn cwrdd â safonau CSIW;

<sup>4</sup> Ecotec Research & Consulting (Hyd 2006) *Seiliau i'r dyfodol: Darparwyr a phreswylwyr llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru* ac hefyd ffynhonnell y deunydd canlynol yn yr isadran hon.

gellir cysylltu hyn gyda'r ffaith bod y comisiwn yn rheoleiddio llety gyda lefelau uwch o ofal. Fodd bynnag, roedd hygyrchedd yn uwch na'r cyfartaledd mewn tai gwarchod gofal ychwanegol, gyda 46% yn cwrdd â safonau CSIW a 20% pellach yn addas ar gyfer cadair olwyn. Mewn tai gwarchod confensiynol a thai dynodedig yr oedd hygyrchedd waethaf, er bod gan dai gofal ychwanegol dibyniaeth uchel ac Abbeyfield gyfrannau gwell na'r cyffredin o ran unedau gyda mynediad i gadair olwyn.

Ar draws Cymru, roedd cyfraddau gwacter cyfartalog am lety arbenigol i bobl hŷn ychydig dan 6%<sup>5</sup>, bron i ddwywaith y cyfradd gwacter am holl anheddau ar hyd Lloegr a Chymru yn 2001<sup>6</sup>. Y cyfradd isaf, a than gyfartaledd Lloegr a Chymru, oedd mewn tai dynodedig (dim ond 3% o'r holl unedau). Cafwyd y cyfraddau gwacter uchaf yn Abbeyfield, gofal ychwanegol mewn tai gwarchod a chartrefi nyrsio, ble roedd tua 10% o'r unedau yn wag. Dengys hyn bod lle i fwy o breswylwyr yn y mathau hyn o lety, o bosib oherwydd galw isel gan breswylwyr posib. Mae hyn yn annisgwyl gyda thai gofal ychwanegol, a ystyrir yn fodel o dai i'r dyfodol ac felly a ystyrir yn boblogaidd.

Yn ôl yr astudiaethau achos, nodir bod y galw am bob math o dai gwarchod yn gyffredinol yn gryf ond bod rhai cynlluniau unigol yn anodd i'w gosod. Yn aml fe ymddengys bod cryfder y galw hwn yn codi o ddiffyg llety amgen mwy addas: tai gwarchod yw'r unig ddewis amgen i'r rhai hynny sydd dros 55 oed ac yn chwilio am lety. Yn ogystal, ymddengys mai lleoliad oedd nodwedd cryfaf nifer o gynlluniau. Ymddengys bod lleoliad da yn cynnal cynllun nad oedd ganddo ddim byd arall o'i blaid o ran adeilad, cyfleusterau neu faint fflat.

Roedd gan bron i un rhan o bump (19%) o unedau rhyw ffurf ar system teleofal<sup>7</sup>. Yn ôl categori llety, roedd teleofal yn ymron pob uned mewn cartrefi nyrsio a'r mwyafrif o unedau mewn tai gofal ychwanegol dibyniaeth uchel. Roedd gan y ddau fath o lety breswylwyr gyda lefelau uchel o ofal, felly mae'r math hwn o dechnoleg yn bwysig. Roedd gan tai dynodedig hefyd gyfran uchel o unedau gyda teleofal, yn cynrychioli 41% o'r holl unedau, oedd yn angenrheidiol oherwydd bod presenoldeb staff yn is yno nac mewn mathau eraill o ddarpariaeth. Roedd lefelau teleofal mewn tai gwarchod confensiynol a thai gwarchod gofal ychwanegol yn isel, er yn agos at y cyfartaledd i bob cynllun.

<sup>5</sup> Ecotec Research & Consulting (Hyd 2006) *Seiliau i'r dyfodol: Darparwyr a phreswylwyr llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru*

<sup>6</sup> Y Swyddfa Ystadegol Gwladol (2003) 'Cyfrifiad 2001 – Pobl a'u cartrefi yn Lloegr a Chymru' ar-lein

<sup>7</sup> Ecotec Research & Consulting (Hyd 2006) *Seiliau i'r dyfodol: Darparwyr a phreswylwyr llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru*. Holodd ein arolwg i ba raddau yr oedd systemau ac adnoddau teleofal yn cael eu defnyddio gan y cynlluniau. Roedd natur yr holi yn nacau diffiniad o beth yn union a olygir gan "telecare" ac felly fe all y data sy'n dilyn adlewyrchu amrywiaeth o ddealltwriaethau ynglŷn â'r adnoddau a systemau a all gael eu cynnwys.

## 2.3 Gwasanaethau a gynigir gan ddarparwyr llety

Mae cartrefi a chynlluniau'n darparu amrywiaeth eang o gyfleusterau, o bethau sy'n gysylltiedig a phrydau bwyd i weithgareddau hamdden i gyfleusterau aelwyd a chyfleusterau gofal. Ymateb 24 awr oedd y cyfleuster mwyaf cyffredin yn ôl holl atebion yr holiadur, er bod larwm ar leoliad yn gyffredin iawn hefyd. Ynghyd a'r cysylltiad argyfwng hwn, roedd ystafell gyffredin a thoiledau ystafell gyffredin hefyd yn gyffredin iawn. Fodd bynnag, yn yr ymweliadau astudiaeth achos, hyd yn oed yn y cynlluniau hynny oedd yn cael eu hystyried yn fwy na thai gwarchod "safonol", roedd cyfleusterau cymunol yn gyffredinol yn wael ac yn dangos diffyg dychymyg. Diddordebau a gweithgareddau oedd y cyfleusterau lleiaf cyffredin, yn arbennig spa, ystafell ymarfer corff ac ystafell gyfrifiaduron.

Gyda'r fath amrywiaeth a chymysgedd o lety, roedd amrywiaeth eang yn y cyfleusterau a ddarparwyd. Roedd tai dynodedig yn fwy tebygol o beidio a nodi cyfleusterau na phob cynllun arall ond hefyd yn fwy tebygol o gael larymau gwasgareddig. Roedd ystafell fwyta'n gyffredin iawn yn Abbeyfield ac yn fwy cyffredin nac ar draws y cynlluniau i gyd. Tai gwarchod confensiynol oedd y math mwyaf tebygol o dai arbenigol i gael llety ar gyfer ymwelwyr. Roedd tai gwarchod gyda gofal ychwanegol yn fwy tebygol nac ar draws pob categori i gael cyfleusterau cymorth ymdrochi, bath neu gawod symudedd a chyfleusterau hamdden. Roedd cyfleusterau mewn cartrefi preswyl a nyrsio yn eithaf tebyg, y ddau fel arfer yn cynnwys ystafelloedd bwyta a chyfleusterau cymorth ymdrochi, yn wahanol i'r cyfartaledd ar gyfer pob math o lety. Fodd bynnag, nid oedd gan y cartrefi nyrsio a atebodd yr holiadur lety ar gyfer ymwelwyr.

Roedd lefelau staffio'n amrywio'n sylweddol yn ôl categori llety. Yn gyffredinol, roedd oriau staff i bob preswylwr yn codi po fwyaf o ofal oedd ei angen, gyda'r cyfartaledd isaf o oriau staff i bob preswylwr mewn tai dynodedig (1 awr yr wythnos) a'r uchaf mewn cartrefi nyrsio (34 awr). Mae Abbeyfield yn eithriad i'r tuedd hwn, gan fod ganddynt gyfartaledd eithaf uchel o oriau ar gyfer y warden neu reolwr cynllun. Wrth gwrs, y categorïau hynny oedd yn cynnig llawer o ofal oedd gyda'r lefel uchaf o oriau gofal: roedd gan gartrefi preswyl a nyrsio ar gyfartaledd 21 o oriau gofal i bob preswylwr mewn wythnos. Y ddau fath hwn o lety hefyd oedd â'r lefelau uchaf ar gyfartaledd o staff arlwygo i bob preswylwr (3 a 4 awr yr wythnos yn eu tro, o'i gymharu â llai nag 1 awr ym mhob categori arall), sy'n dangos faint o wasanaethau arlwygo a gynigir o fewn y lleoliadau hyn.

Mae rheolwyr cynllun yn chwarae rhan bwysig ac yn cael effaith ar awyrgylch cynlluniau a chartrefi. Mae eu rôl yn llawer mwy na chynnal adeilad ac yn ymestyn i ddatblygiad cymuned. O'r ymweliadau astudiaeth achos, roedd rheolwyr oedd yn annog annibyniaeth yn rhedeg cynlluniau gyda phreswylwyr bywiog ac awyrgylch pluserus. Roedd eu preswylwyr hefyd yn cyfrannu at wneud penderfyniadau ynglŷn a'u cynllun, o ddewis lliw y carpedi i sut i ddyrannu cyllid.

## 2.4 Amrywiadau gofodol

Yn ôl ein cronfa ddata roedd y cyfran uchaf o gynlluniau yn ne-ddwyrain Cymru<sup>8</sup>, gan gynrychioli 38% o'r holl gynlluniau (Tabl 2.2), er mai yn y rhanbarth hwn y gwelir y boblogaeth uchaf yn gyffredinol. Roedd 31% o'r cynlluniau yng ngogledd Cymru.

**Tabl 2.2 Cynlluniau yn y gronfa ddata a chanran yn ôl rhanbarth**

Rhanbarth	Nifer cynlluniau	Canran o'r cyfanswm
De-ddwyrain Cymru	676	37.9%
Gogledd Cymru	550	30.9%
De-orllewin Cymru	389	21.8%
Canolbarth Cymru	167	9.4%
<b>Cyfan</b>	<b>1,782</b>	<b>100.0%</b>

*Ffynhonnell: Dadansoddiad newydd o ddata gan Ecotec Research & Consulting (Hyd 2006) Seiliau i'r dyfodol: Darparwyr a phreswylwyr llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru*

Yn ôl ein harolwg, mae peth amrywiaeth daearyddol yn ôl nodweddion llety. Roedd pob uned yn Sir Gaerfyrddin, Sir Ddinbych, Merthyr Tudful, Powys a Rhondda Cynon Taf yn cael eu rhentu, sy'n awgrymu diffyg dewis deiliadaeth ar gyfer pobl hŷn yn yr ardaloedd hyn<sup>9</sup>. Mewn cymhariaeth, yng Ngwynedd cafwyd cyfran uchel iawn o ran berchnogaeth, yn cynrychioli 89% o'r holl unedau. Roedd les ddaliad yn ddeiliadaeth mwy cyffredin yng Nghonwy a Bro Morgannwg, yn cynrychioli 38% a 29% yn eu tro.

Roedd byngalos yn fwy cyffredin mewn cynlluniau yng ngogledd a chanolbarth Cymru ac yn lleiaf cyffredin yn ne-ddwyrain Cymru. Yng ngogledd Cymru, er enghraifft, roedd 42% o unedau yn fyngalos ond dim ond 18% a welwyd yn ne-ddwyrain Cymru. Fodd bynnag, roedd gan ganolbarth Cymru 18% o fflatiau un llofft o'i gymharu â 12% ar draws y wlad. Roedd gan gogledd Cymru gyfran uchel iawn o unedau dwy lofft, yn cynrychioli 29% o'r holl unedau, o'i gymharu â 22% yn unig ar draws Cymru. Ar lefel awdurdod lleol, roedd mwy o fyngalos i'w gweld yn Sir Fôn nac mewn ardaloedd eraill, dwywaith cymaint â chyfartaledd Cymru, tra roedd o leiaf 90% o unedau yng Nghasnewydd a Bro Morgannwg yn fflatiau.

Roedd unedau yn fwyaf tebygol o gwrdd â safon CSIW yn ne-ddwyrain Cymru nac unrhyw ardal arall, gan gynrychioli 39% o'r holl unedau, ac yn lleiaf tebygol yng ngogledd Cymru, gydag ond 30% yn gwneud hynny. Fodd bynnag, roedd cyfran uchel o unedau yng


<sup>8</sup> Mae de-ddwyrain Cymru'n cynnwys Blaenau Gwent, Pen-y-bont, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen, Bro Morgannwg; mae gogledd Cymru'n cynnwys Sir Fôn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir Fflint, Gwynedd, Wrecsam; mae de-orllewin Cymru'n cynnwys Sir Gaerfyrddin, Castell Nedd Port Talbot, Sir Benfro, Abertawe; ac mae canolbarth Cymru'n cynnwys Ceredigion, Powys.

<sup>9</sup> Ecotec Research & Consulting (Hyd 2006) *Seiliau ar gyfer y dyfodol: Darparwyr a phreswylwyr llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru* ac hefyd ffynhonnell y deunydd canlynol yn yr isadran hwn

nghanolbarth Cymru yn addas ar gyfer cadair olwyn, gan gynrychioli 30% o'r holl unedau o'i gymharu â 16% ar draws Cymru. Ar lefel lleol roedd gan gyfran uchel (71%) o unedau yn Sir Fôn fynediad safonol; roedd gan gynlluniau ym Mhen-y-bont a Sir Fynwy gyfran uchel o unedau – tua dwy ran o dair – yn cwrdd â safon CSIW.

Gellir defnyddio nifer yr unedau gwag mewn unrhyw gynllun i ddynodi galw, er mai cipolwg yn unig yw data a gall unedau gwag godi o amryw o ffactorau. Er hynny, mae gwahaniaeth eglur mewn cyfraddau gwacter ym mhob rhanbarth. Ar draws Cymru, ychydig dan 6% oedd y cyfradd gwacter cyfartalog (Ffigwr 2.1), tra yng ngogledd a de-ddwyrain Cymru gwelwyd tua hanner lefel y llefydd gwag oedd i'w gweld yn ne-orllewin a chanolbarth Cymru (5% o'i gymharu â 9% ac 11% yn eu tro). Roedd peth amrywiaeth hefyd ar lefel awdurdod lleol, gyda chynlluniau yng Ngheredigion, Abertawe a Bro Morgannwg yn dangos cyfraddau gwacter o dros 10%, tra bod cynlluniau ym Merthyr Tudful yn dangos llai nag 1% (dim ond 2 le gwag allan o 295 uned).

**Ffigwr 2.1 Cyfraddau gwacter yn ôl ardal awdurdod lleol, 2006**




*Ffynhonnell Ecotec Research & Consulting (Hyd 2006) Seiliau i'r dyfodol: Darparwyr a phreswylwyr llety arbenigol i bobl hŷn yng Nghymru, Ffigwr 3.1*

Roedd gan bron i un rhan o bump (19%) o unedau yn y cynlluniau system teleofal, fel y nododd atebion yn yr holiadur. Fodd bynnag, cynlluniau yng ngogledd Cymru oedd yn fwyaf tebygol o gael teleofal, yn cynrychioli 22% o'r holl unedau, a dwywaith mor debygol a'r unedau hynny yng nghanolbarth Cymru, ble gwelwyd 11% gyda theleofal. Mae'r amrywiaeth ar draws ardaloedd awdurdodau lleol hefyd yn arwyddocaol (Ffigwr 2.2).

Atebion Sir Ddinbych oedd â'r gyfran uchaf o unedau gyda teleofal (58%), tra bod atebion Pen-y-bont yn dangos dim unedau gyda teleofal.

**Ffigwr 2.2 Canran o unedau gyda system teleofal yn ôl awdurdod lleol**



*Ffynhonnell Ecotec Research & Consulting (Hyd 2006) Seiliau i'r dyfodol: Darparwyr a phreswylwyr llety arbenigol i bobl hŷn yng Nghymru, Ffigwr 4.1*

Wales average – Cyfartaledd Cymru

Sir Fôn

Blaenau Gwent

Pen-y-bont

Caerffili

Caerdydd

Sir Gaerfyrddin

Ceredigion

Conwy

Sir Ddinbych

Sir Fflint

Gwynedd

Merthyr Tudful

Sir Fynwy

Castell Nedd Port Talbot

Casnewydd

Sir Benfro

Powys

Rhondda Cynon Taf

Abertawe

Torfaen

Bro Morgannwg

Wrecsam

### 2.4.1 Materion Gwledig

Ychydig o wahaniaeth a welwyd rhwng cyfraddau gwacter mewn ardaloedd gwledig a threfol. Roedd byngalos, yn arbennig rhai gydag un llofft yn unig, fymryn yn fwy cyffredin mewn cynlluniau mewn ardaloedd trefol nac mewn ardaloedd gwledig<sup>10</sup>. Roedd unedau yn fwy tebygol o gwrdd â safonau CSIW mewn ardaloedd gwledig nac ardaloedd trefol, yn cynrychioli 42% o holl unedau o'i gymharu gyda 33% yn eu tro. Roedd cynlluniau mewn ardaloedd trefol yn fwy tebygol o gael system teleofal na rhai mewn ardaloedd gwledig, yn cynrychioli 21% o holl unedau yn erbyn 15%.

Mae gallu defnyddio gwasanaethau yn rhwydd yn bryder arbennig i bob grŵp oedran sy'n byw mewn ardal wledig. I bobl hŷn, mae meddygfa leol, siopau, fferyllfa a llyfrgell, yn ddelfrydol gyda mynedfa ar lwybr gwastad, yn arbennig o bwysig. Roedd un o'r ymweliadau astudiaeth achos yn cynrychioli tai dynodedig mewn ardal wledig ond yn hygyrch o ran gwasanaethau. Mewn astudiaethau achos eraill, roedd y diffyg gwasanaethau lleol neu'r ffaith eu bod yn anhygyrch, yn peri i breswylwyr deimlo'n ynysig. Yn y rhan fwyaf o gynlluniau a gafodd ymweliad, roedd y rhan fwyaf o breswylwyr yn dod o'r ardal.

## 2.5 Cyllid ar gyfer llety

Mae cyllid wedi bod yn sbardun pwysig o ran llety ar gyfer pobl hŷn, yn wir gellir gweld y prosiect hwn yng nghyd destun ceisio cynyddol am gyllid ar gyfer tai gofal ychwanegol. Er ei bod hi'n ymddangos yn haws i gael cyllid ar gyfer cynlluniau gofal ychwanegol yn yr

<sup>10</sup> Ffynhonnell Ecotec Research & Consulting (Hyd 2006) Seiliau i'r dyfodol: Darparwyr a phreswylwyr llety arbenigol i bobl hŷn yng Nghymru



hinsawdd bresennol, rhaid i lety olygu gwerth am arian i'r rhai hynny sy'n cyllido'r gwasanaethau o'i gymharu gyda darpariaeth amgen ar gyfer yr un person. Nid yr anhawster wrth geisio cyllid digonol i wneud gwelliannau er mwyn cwrdd â safonau newydd yw'r prif ystyriaeth, er ei fod yn arwyddocaol. Y peth allweddol yw dyraniad addas ac ymateb yn hyblyg i anghenion gofal newidiol.

Un o'r manteision honedig sydd gan dai gwarchod gyda llawer o ofal dros ofal preswyl yw bod y tenant yn cael ei adael gyda lefel uwch o incwm gwario. Fodd bynnag, dylai trefniadau cyllid fod yn deg i'r tenant heb lwytho costau ar draul tenantiaid hunan gyllidol. Felly ni fydd cynllun sydd ond yn bosib gyda lefelau uchel iawn o rent neu gyda llwyth o gostau ychwanegol yn deg ar y tenantiaid hynny sydd ddim yn gymwys i dderbyn budd-daliadau.

Fel tai gwarchod, mae hanes hir yn perthyn i ofal preswyl yn y sector breifat. Hyd nes y 1980au roedd llawer o'r gofal preswyl a ddarparwyd yn y sector breifat i'r rhai hynny oedd yn gallu talu eu costau gofal eu hunain. Canlyniad anfwriadol newid mewn rheolaethau yn y 1980au cynnar, fel bod cefnogaeth ariannol gan gronfeydd cyhoeddus ar gael i'r rhai hynny'n derbyn gofal mewn tai preswyl, oedd cynnydd anferthol yn y sector. Mae rhai cartrefi ymron yn hollol ddibynnol ar breswylwyr sy'n derbyn cyllid gan yr awdurdod lleol a byddai'r mwyafrif ohonynt yn dweud bod lefelau awdurdodau lleol yn ddylanwad mawr ar lefelau eu ffioedd.

Yn genedlaethol ac yn lleol mae rhywfaint o gwtogi i'w weld yn y sector cartref gofal preswyl preifat. O fewn y sector byddai llawer yn dadlau bod lefelau talu artiffisial o isel gan awdurdodau lleol yn gorfodi llawer o gartrefi i gau. Mewn rhai ardaloedd mae datblygiad gwasanaethau amgen yn cael effaith ar y galw am gartrefi. Bydd nifer o bobl hŷn a'u teuluoedd yn gohirio symud i gartref gofal preswyl am yr amser hiraf posib oherwydd y goblygiadau ariannol ar y rhai hynny gydag incwm ychwanegol, arian wedi ei gynilo neu asedau megis eu cartref eu hunain.

## 2.6 Crynodeb o dystiolaeth

- Roedd bron i dair gwaith cymaint o fflatiau na byngalos mewn cynlluniau a atebodd ein harolwg (73% o fflatiau o'i gymharu a 27% o fyngalos). Fodd bynnag, roedd byngalos yn fwy poblogaidd mewn tai dynodedig nac ar draws pob categori, gan gyfrif am bron i hanner yr unedau (46%).
- Unedau un llofft oedd y math mwyaf cyffredin o lety, yn cyfrif am bron i ddwy ran o dair o stoc (65%). Fodd bynnag, roedd 12% o unedau ar draws Cymru yn fflatiau un ystafell, sydd fel arfer y math lleiaf poblogaidd ac felly'r math anoddaf o uned i'w gosod. Ar y llaw arall, roedd gan 23% o unedau ddau neu fwy o

lofftydd, yn arbennig o addas ar gyfer cyplau gydag anghenion iechyd gwahanol ac i bobl sengl gydag ymwelwyr cyson.

- Ar draws Cymru mynediad safonol yn unig oedd gan bron i hanner yr unedau (49%), er bod dros un rhan o dair (35%) yn cwrdd â safonau CSIW. Cartrefi nyrsio a phreswyl oedd gan y gyfran uchaf o unedau'n cwrdd â safonau CSIW. Roedd hygyrchedd yn uwch na'r cyfartaledd mewn tai gwarchod gofal ychwanegol. Roedd hygyrchedd ar ei waethaf mewn tai gwarchod confensiynol a thai dynodedig.
- Ar draws Cymru, roedd y cyfradd gwacter ychydig dan 6% ar gyfartaledd, tra bod gan gynlluniau yng ngogledd a de-ddwyrain Cymru tua hanner y lefel o lefydd gwag oedd i'w weld yn ne-orllewin a chanolbarth Cymru (5% o'i gymharu â 9% ac 11% yn eu tro). Ychydig o wahaniaeth a welwyd rhwng lefelau llefydd gwag mewn ardaloedd trefol a gwledig.
- Nodwyd bod y galw am bob math o dai gwarchod yn gyffredinol yn gryf ond bod rhai cynlluniau unigol yn anodd i'w gosod. Yn aml ymddengys bod cryfder y galw yn codi o ddiffyg llety amgen: tai gwarchod yn cael eu cynnig fel yr unig lety amgen i bobl dros 55 oed ac yn chwilio am lety. Yn ogystal, lleoliad oedd nodwedd cryfaf nifer o gynlluniau. Fe ymddengys bod lleoliad da yn gallu cynnal cynllun nad oedd yn cynnig llawer o ran cynllun, cyfleusterau neu faint fflat.
- Roedd gan bron i un rhan o bump (19%) o unedau arbenigol system teleofal yn yr unedau. Fodd bynnag, cynlluniau yng ngogledd Cymru oedd yn fwyaf tebygol o gael teleofal, yn cynrychioli 22% o holl unedau, dwywaith y gyfran yng nghanolbarth Cymru.
- Gyda chymaint o amrywiaeth a chymysgedd o fathau o lety, wrth reswm cafwyd amrywiaeth mawr yn y cyfleusterau a gynigir.
- Yn gyffredinol, roedd cyfanswm oriau staff yn cynyddu yn ôl lefel y gofal oedd ei angen, gyda thai dynodedig yn dangos y cyfartaledd isaf o oriau i bob preswlydd (1 awr yr wythnos) a chartrefi nyrsio'n dangos yr uchaf (34 awr).
- Roedd rheolwyr oedd yn annog annibyniaeth yn rhedeg cynlluniau gyda phreswylwyr bywiog ac awyrgylch pleserus.
- Mae gallu defnyddio gwasanaethau yn ystyriaeth bwysig i bobl o bob oed sy'n byw mewn ardal wledig. I bobl hŷn, mae meddygfa leol, siopau, fferyllfa a llyfrgell, yn ddelfrydol gyda llwybr gwastad yn arwain atynt, yn arbennig o bwysig.

## 3 Galw am lety ar hyn o bryd ac i'r dyfodol

---


Mae'r adran hon yn dangos y boblogaeth bresennol mewn llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru, ac yn tarddu o holiadur manwl y darparwyr. Mae hefyd yn crynhoi gwybodaeth demograffig, tueddiadau a materion allweddol o'r adroddiad ar anghenion tai a gofal yn y dyfodol, ac yn crynhoi dyheadau pobl hŷn o'r adolygiad llenyddiaeth.

### 3.1 Galw am lety arbenigol ar hyn o bryd

Roedd tua 14,700 o breswylwyr yn byw yn y 548 cynllun a chartref a atebodd ein holiadur, gyda chyfartaledd o 27 preswilydd ym mhob un<sup>11</sup>. Ar draws Cymru roedd dros hanner (51%) y preswylwyr yn 80 oed neu'n hŷn, er bod y cynlluniau a atebodd yr holiadur hefyd yn rhoi llety i gyfran dda o breswylwyr cymharol ifanc: Roedd 6% yn iau na 60 (Ffigwr 3.1). Yn gyffredinol, gwelwyd y boblogaeth hynaf mewn lleoliadau gyda lefelau uwch o ofal, ag eithrio cartrefi Abbeyfield, oedd yn cynnig llety i gyfran anghyffredin o uchel (66%) o bobl 85 oed neu fwy ond nid oedd ganddynt ddim lefelau o ofal. Mewn cyferbyniad, roedd gan dai dynodedig a thai gwarchod confensiynol boblogaethau wedi eu rhannu'n fwy cyson yn ôl grŵp oedran.

<sup>11</sup> Ecotec Research & Consulting (Hyd 2006) *Seiliau i'r dyfodol: Darparwyr a phreswylwyr llety arbenigol i bobl hŷn yng Nghymru* ac hefyd ffynhonnell y rhan fwyaf o'r deunydd yn yr isadran hwn

**Ffigwr 3.1 Proffil oedran preswylwyr, pawb a atebodd**



*Ffynhonnell: Ecotec Research & Consulting (Hyd 2006) Seiliau ar gyfer y dyfodol: Darparwyr a phreswylwyr llety arbenigol i bobl hŷn yng Nghymru Tabl 2.2*

Roedd mwyafrif llethol ethnigrwydd y preswylwyr ar draws pob categori a atebodd yr holiadur yn wyn, gyda llai nac 1% o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BME), er, roedd hyn yn debyg i gyfran y BME ymysg y boblogaeth ehangach 60 oed neu'n hŷn yn 2001<sup>12</sup>.

Ar draws pob categori o lety, roedd menywod sengl yn cynrychioli bron i ddwy ran o dair (62%) o bob aelwyd, tra roedd dynion sengl yn cynrychioli dim ond chwarter. Mewn cyferbyniad, roedd cyplau'n cynrychioli'r gyfran lleiaf o aelwydydd, dim ond 12% o'r rhain oedd yn cael llety gan yr holl atebyddion. Fodd bynnag, roedd gan y lleoliadau hynny gyda'r boblogaeth hynaf hefyd y cyfran uchaf o fenywod sengl, yn adlewyrchu'r ffaith bod menywod yn byw'n hirach na dynion a'u bod angen tai, gofal a chefnogaeth am amser hirach.

Roedd angen help ar y rhan fwyaf o breswylwyr gyda gwaith tŷ, gofal personol neu'r ddau. Nid yw hyn yn syndod gan fod y prosiect hwn yn canolbwyntio ar ffurfiau arbenigol o lety ar gyfer pobl hŷn, ble caiff cymorth a gofal eu targedu. Fodd bynnag, fe allai mwyafrif y preswylwyr mewn tai dynodedig, Abbeyfield a thai gwarchod confensiynol ymdopi heb help. Mae hyn yn nodweddiadol i Abbeyfield gan fod y boblogaeth yn arbennig o hen o'u

<sup>12</sup> NOMIS, 2001 tabl thema'r cyfrifiad T13 ar-lein

cymharu gyda'r ddau fath arall o lety. Tra bod y rhan fwyaf o breswylwyr yn y ddau ffurf amlycaf angen rhyw fath o gymorth, roedd y rhan fwyaf ohonynt angen help gyda gwaith tŷ yn hytrach na gofal personol neu'r ddau.

Roedd cynlluniau yn rhoi llety i breswylwyr gydag amrywiaeth eang o namau (weithiau mwy nag un). Roedd gan dros un rhan o dair (36%) o'r holl breswylwyr broblemau symudedd, a dyma'r math mwyaf cyffredin o nam. Roedd yn fwyaf cyffredin o fewn bron pob ardal awdurdod lleol a phob math o lety. Salwch meddwl a dementia oedd y ddau nam lleiaf cyffredin. Fodd bynnag, roedd dementia yn dal i effeithio bron i 1,500 o breswylwyr – dros 10% o boblogaeth y preswylwyr mewn cynlluniau atebyddol – a lefelau tebyg i broblemau medrusrwydd a throsglwyddo. Mewn gofal preswyl, fodd bynnag, dementia oedd y pedwerydd math mwyaf cyffredin o nam, sy'n awgrymu bod preswylwyr sydd yn dioddef o'r cyflwr yn cael gor-gynrychiolaeth yn y fath leoliadau.

### 3.1.1 Amrywiaethau gofodol

Roedd y boblogaeth o breswylwyr ieuengaf yng ngogledd a de-ddwyrain Cymru, ble roedd tua 53% o breswylwyr dan 80, ond yn hŷn yn ne-orllewin a chanolbarth Cymru, gyda 52% a 63% yn eu tro yn 80 neu'n hŷn. Mae rhywfaint o amrywiaeth wrth edrych ar broffil y preswylwyr ar lefel awdurdod lleol. Roedd dros hanner y preswylwyr yn 85 neu fwy yn Sir Benfro a Phowys, tra roedd cyfrannau uchel o breswylwyr Blaenau Gwent, Merthyr Tudful, Casnewydd a Bro Morgannwg yn y band oedran ieuengaf (59 neu'n iau).

Wrth gymharu ethnigrwydd preswylwyr cynllun gyda'r boblogaeth yn ehangach, dim ond cynlluniau yng Nghasnewydd a Rhondda Cynon Taf oedd gyda chynrychiolaeth uwch o breswylwyr duon a lleiafrif ethnig – o dras Tseiniaidd yn y ddau achos – er bod hyn oherwydd cynnwys darparwyr llety arbenigol ar gyfer y grŵp ethnig hwn yn yr ymchwil.

Roedd patrwm y namau yn gyffredin i gynlluniau ym mhob ardal awdurdod lleol, gyda phroblemau symudedd y math mwyaf cyffredin o nam. Roedd nam ar y synhwyrau yn fwyaf cyffredin yng Ngheredigion a phroblemau ymataliaeth fwyaf cyffredin ym Mhowys.


Roedd poblogaeth y preswylwyr yn y cynlluniau atebyddol yn hŷn mewn awdurdodau gwledig nac mewn rhai trefol<sup>13</sup>, gyda 55% o'r boblogaeth yn 80 oed neu'n hŷn mewn ardaloedd gwledig ond dim ond 45% mewn awdurdodau trefol. Fodd bynnag, roedd poblogaeth preswylwyr y cynlluniau yn yr ardaloedd trefol yn cynrychioli bron i dri chwarter (73%) o'r holl breswylwyr. Roedd patrwm y namau yn debyg mewn cynlluniau mewn awdurdodau trefol a gwledig, gydag amlygrwydd problemau symudedd yn cynrychioli problem sylweddol i gynlluniau mewn ardaloedd gwledig.

<sup>13</sup> Awdurdodau gwledig yw Sir Fôn, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd, Sir Fynwy, Sir Benfro, Powys; mae gweddill yr awdurdodau yn drefol (ffynhonnell: Arsyllfa Wledig Cymru (dim dyddiad) Cyflwyniad 'Tlodi ac allgau cymdeithasol yng Nghymru wledig', Tabl 2

### 3.2 Y newidiadau demograffig

Amcanir y bydd cyfanswm y bobl dros 65 oed yng Nghymru yn codi o 518,000 yn 2004 i 885,000 yn 2044, cynnydd o 71% (Ffigwr 3.2)<sup>14</sup>. Fodd bynnag bydd y nifer o bobl 85 oed neu'n hŷn yn codi o 217% i 190,000. Bydd ymhell dros hanner y boblogaeth hŷn hwn yn fenywod (57%).

**Ffigwr 3.2 Pobl 65 oed neu'n hŷn fel canran o boblogaeth 2004-2044**



Ffynhonnell: ECOTEC Research & Consulting a Contact Consulting (2006) *Anghenion tai a gofal ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru yn y dyfodol, Ffigwr 2*

Mae amcanestyniad aelwydydd yn dangos canlyniad poblogaeth yn heneiddio. Amcanir y bydd y nifer o aelwydydd gyda chynrychiolydd aelwyd 65 oed neu'n hŷn yn cynyddu o 151,000 neu 43% dros y cyfnod 2003-26 i 505,000. Erbyn 2026, bydd aelwydydd gyda chynrychiolydd hŷn yn cyfrif am un rhan o dair o holl aelwydydd Cymru.

Yn gyffredinol, mae'r cyfran o bobl hŷn yn is yn yr ardaloedd mwy trefol yn y de ac yn Wrecsam, ac yn uwch yn yr ardaloedd mwy gwledig o ganolbarth, gorllewin a gogledd Cymru. Ym mhob rhanbarth mae'r cynnydd mwyaf ymysg pobl oed ymddeol. Yng nghanolbarth Cymru, amcanestynir y bydd y grŵp hwn yn tyfu o 36%, o'i gymharu gyda 30% yng ngogledd Cymru, 27% yn ne-orllewin Cymru a 25% yn ne-ddwyrain Cymru. Rhaid i'r polisi sy'n ymateb i hyn ar lefel cenedlaethol roi cyfle i flaenoriaethau lleol ac

<sup>14</sup> ECOTEC Research & Consulting a Contact Consulting (2006) *Anghenion tai a gofal ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru yn y dyfodol* ac hefyd ffynhonnell y deunydd yn yr isardran hwn

addasiadau i adlewyrchu amgylchiadau lleol, ond cydnabod poblogaeth sy'n heneiddio ym mhob rhanbarth.

### 3.3 Anghenion tai a gofal sy'n gysylltiedig a henaint

O 2004 i 2044 bydd grwpiau oedran hŷn yn dangos cynnydd sylweddol. Sut mae cwrdd ag anghenion y boblogaeth hwn o bobl oedrannus? Os nad ydym am weld cynnydd mawr a drud mewn darpariaeth gofal trwy ofal preswyl a nyrsio yna mae angen dewisiadau credadwy eraill. Bydd angen i'r rhain ddarparu ansawdd bywyd da ar gyfer yr unigolyn hŷn, ymateb digonol i'r risg sy'n eu hwynebu, a lefelau cynaliadwy o ofal.

Dyhead llawer o bobl sy'n dynesu at henaint ar hyn o bryd yw aros yn eu cartrefi eu hunain, sy'n golygu bod y rhan fwyaf o bobl yn aros yn berchen feddianwyr a pheidio a symud i dai gwarchod, sef tai cymdeithasol. Amcanir felly y bydd cyfran tenantiaid sector rhentu cymdeithasol 65 oed neu'n hŷn yn gostwng o 26% i 21% o 2001 i 2026<sup>15</sup>. Fodd bynnag, ni chaiff y gostyngiad hwn yng nghyfran y tenantiaid rhentu cymdeithasol ei gydweddu gan ostyngiad yn nifer absoliwt tenantiaid cymdeithasol, gan yr amcanir y bydd y nifer o aelwydydd hyn yn codi ar draws pob deiliadaeth. Does gan denantiaid rhentu cymdeithasol ddim ecwiti, ond fe allant ddisgwyl trwsio, addasiadau a gwell rheolaeth tai gan eu landlord, gan gynnwys gallu mynd i dai a adeiladwyd i bwrpas ar gyfer pobl hŷn.

Parthed tai, yn wahanol i arolygon cenedlaethol blaenorol, nid yw'r dystiolaeth yn Byw yng Nghymru 2004<sup>16</sup> yn amlgu pobl hŷn ar y cyfan fel grŵp fydd yn llawer mwy tebygol o brofi tai mewn cyflwr gwael na grwpiau ifanc. Fodd bynnag mae arolygon blaenorol, oedd yn dadansoddi data cyflwr ar gyfer grwpiau oedran o fewn y boblogaeth hŷn, wedi awgrymu mai'r boblogaeth hynaf (85+) fydd yn fwyaf tebygol o brofi tai yn y cyflwr gwaethaf. Eto, ar y cyfan roedd pobl hŷn yn fwy bodlon bod eu llety mewn cyflwr da, ac yn llai tebygol o deimlo eu bod yn cael eu heffeithio gan amodau gwael ble roeddent yn bodoli, ac yn llai tebygol o deimlo bod angen adnewyddu eu llety.

Mae'r tueddiad i fyw ar eu pennau eu hunain yn hytrach na gyda pherson hŷn arall yn cynyddu'n amlwg gydag oedran, yn arbennig yn dilyn marwolaeth partner; mae bron i hanner y grŵp oedran dros 75 yn byw ar eu pennau eu hunain. Caiff hyn effaith amlwg ar ddarpariaeth gofal, gan fod y posibilrwydd o fyw yn annibynnol neu dderbyn gofal answyddogol yn gwanhau i'r rhai hynny sy'n byw ar eu pennau eu hunain o'u cymharu â phobl sy'n byw gyda phobl hŷn eraill. Fodd bynnag, mae disgwyliad oes dynion yn codi, ac ar raddfa cyflymach nac ar gyfer menywod. Mae hyn yn debygol o olygu y bydd mwy o

<sup>15</sup> ECOTEC Research & Consulting and Contact Consulting (2006) *Anghenion tai a gofal pobl hŷn yng Nghymru yn y dyfodol* ac hefyd ffynhonnell y deunydd yn yr isadran hwn

<sup>16</sup> Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2005) *Byw yng Nghymru 2004* ar-lein

gyplau hŷn ac y bydd menywod yn hŷn pan ddaw'r cyfnod pan fydd nifer ohonynt yn byw ar eu pennau eu hunain yn dilyn marwolaeth partner.

Yn nhermau anghenion iechyd a gofal cymdeithasol, mae pobl hŷn yn llawer mwy tebygol o ddiodeff o salwch tymor hir sy'n cyfyngu ar eu gweithgareddau ac yn gofyn am rhyw fath o ofal neu gymorth, neu addasiad i'w cartref. Mae cyffredinrwydd amryw gyflyrrau – gan gynnwys clefyd y galon, cancr, salwch anadlu, salwch meddwl, clefyd y siwgr, poen yn y cefn, arthritis, gwythiennau chwyddedig, anawsterau gyda chlyw a golwg, a thueddiad i gael damweiniau – i gyd yn cynyddu'n amlwg gydag oedran, yn arbennig ar gyfer y rhai hynny sy'n 75 oed neu'n hŷn.

Fodd bynnag, mae rhai gwelliannau i iechyd pobl hŷn yn debygol o ddigwydd dros y 20 mlynedd nesaf yn codi o amryw o achosion gan gynnwys newidiadau yn y strwythur galwedigaethol, gwell ffyrdd o fyw a gwelliannau mewn gofal meddygol. Eto, mae gofal personol yn fwy amlwg ar gyfer y grŵp oedran hynaf (85+). Felly er gwaetha'r gwelliannau disgwylidig i iechyd, y grŵp oedran hynaf fydd yn dal i fod angen y mwyaf o ofal a chymorth ychwanegol yn y dyfodol.

### 3.4 Dyheadau pobl hŷn

Ynghyd a'r demograffig newidiol ac anghenion gofal newidiol, mae dyheadau cenedlaethau o bobl hŷn y dyfodol hefyd yn newid. Mae ymchwil<sup>17</sup> yn cydnabod amrywiaeth eang o elfennau yn nyheadau pobl hyn:

- llety gyda mwy o le, yn arbennig lle i ymwelwyr, mwy o le storio, ceginau gyda mwy o le, a lle i wneud gweithgareddau o fewn eu llety yn hytrach na mewn man cymunol;
- dewis o ddeiliadaeth a lleoliad o fewn cymuned gyfarwydd;
- lefel uchel o breifatrwydd yn eu bywyd personol;
- llety sy'n ddiogel rhag trosedd ac amhariad gwirioneddol ac ymddangosiadol;
- llety a gerddi hawl eu cynnal, neu dirprwyo cynnal a chadw i eraill am gost fforddiadwy;
- defnydd o drafnidiaeth cyhoeddus, trwy barhau i berchen car neu ddefnydd o sgwter pafin;
- defnydd o amryw o gyfleusterau safonol ar gyfer siopa, bancio, gofal iechyd ac ati;
- defnydd o gyfleusterau ar gyfer amryw o ddiddordebau addysgol a diwylliannol;
- defnydd o gyfleusterau i gynnal ffitrwydd personol; a

<sup>17</sup> Appleton, N (2002) *Planning for the majority: The needs and aspirations of older people in general housing* York: Joseph Rowntree Foundation; Oldman, J (2006) *Housing choice for older people* Llundain: Help the Aged



- chyfle i gymryd rhan yn llunio cyfleusterau a gwasanaethau sy'n effeithio ar eu hansawdd bywyd.

### 3.5 Crynodeb o dystiolaeth

Roedd gan y boblogaeth o breswylwyr mewn llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru y nodweddion canlynol:

- Roedd 51% o breswylwyr yn y cynlluniau a atebodd yr holiadur yn 80 oed neu'n hŷn, roedd 6% yn iau na 60. Yn gyffredinol, roedd y poblogaethau hynaf mewn lleoliadau gyda lefelau uwch o ofal. Roedd gan dai dynodedig a thai gwarchod confensiynol boblogaethau wedi eu rhannu'n fwy cyfartal o ran oedran.
- Roedd llai nag 1% o breswylwyr mewn llety arbenigol o gymunedau pobl dduon a lleiafrif ethnig, cyfran debyg i'r boblogaeth ehangach.
- Roedd 62% o'r holl aelwydydd yn fenywod sengl, 25% yn ddynion sengl a 12% yn gyplau.
- Roedd gan 36% o holl breswylwyr broblemau symudedd, sef y nam mwyaf cyffredin. Salwch meddwl a dementia oedd y ddau nam lleiaf cyffredin ar draws yr holl atebyddion. Fodd bynnag, roedd dementia yn dal i effeithio bron i 1,500 o breswylwyr, dros 10% ar draws pawb a atebodd, a lefelau tebyg i broblemau medruswydd a throsglwyddiad. Mewn gofal preswyl, dementia oedd y pedwerydd math o nam mwyaf cyffredin.
- Roedd y boblogaeth o breswylwyr ieuengaf yng ngogledd a de-ddwyrain Cymru, ble roedd tua 53% o breswylwyr o dan 80 oed, ond yn hŷn yng ngorllewin a chanolbarth Cymru, ble roedd 52% a 63% yn eu tro yn 80 oed neu'n hŷn. Roedd y boblogaeth o breswylwyr mewn cynlluniau atebyddol yn hŷn mewn awdurdodau gwledig nac mewn rhai trefol.

Mae amcanestyniadau ar gyfer pobl hŷn yn dangos:

- Bydd nifer y bobl yng Nghymru dros 65 oed yn codi o 518,000 yn 2004 i 885,000 yn 2044, cynnydd o 71%. Fodd bynnag, bydd y nifer o bobl 85 oed ac yn hŷn yn codi o 217% i 190,000.
- Erbyn 2026, bydd aelwydydd gyda chynrychiolydd sy'n berson hŷn yn cyfrif am un rhan o dair o holl aelwydydd yng Nghymru.
- Yng nghanolbarth Cymru, fe fydd oed ymddeol y boblogaeth yn codi o 36%, o'i gymharu gyda 30% yng ngogledd Cymru, 27% yn ne-orllewin Cymru a 25% yn ne-ddwyrain Cymru.
- Bydd y cyfran o denantiaid rhentu cymdeithasol 65 oed neu'n hŷn yn gostwng o 26% i 21% o 2001 i 2026, wrth i'r cohort presennol o berchen feddianwyr heneiddio parhau i fyw mewn tai preifat.

- Bydd bron i hanner y grŵp oedran 75 neu'n hŷn yn byw ar eu pennau eu hunain. Fodd bynnag, mae codiad yn nisgwyliad oes dynion yn debygol o olygu mwy o gyplau hŷn a bydd menywod yn hŷn pan ddaw'r cyfnod pan fydd nifer ohonynt yn byw ar eu pennau eu hunain yn dilyn marwolaeth partner.
- Er gwaethaf gwelliannau disgwylidig i iechyd, fe fydd y bobl hynny sy'n 85 oed neu'n hŷn yn dal i fod angen y mwyaf o ofal a chymorth ychwanegol yn y dyfodol.

Mae dyheadau pobl hŷn sy'n dod i'r amlwg yn cynnwys:

- Mwy o le; dewis deiliadaeth; graddfa uchel o breifatrwydd; diogelwch rhag trosedd ac amhariad; cynhaliaeth hawdd a fforddiadwy; gallu defnyddio trafnidiaeth breifat; gallu defnyddio gwasanaethau cymunedol; a chyfle i gymryd rhan yn llunio cyfleusterau a gwasanaethau sy'n effeithio ar eu hansawdd bywyd.

## 4 Goblygiadau ar gyfer darpariaeth llety yn y dyfodol

---

Mae'r adran hon yn dadansoddi darpariaeth y gwahanol gategoriâu o lety gan gynnwys gorddarpariaeth ymddangosiadol o dai gwarchod a rôl perchen feddiannu. Daw'r wybodaeth o'r gwaith rhagweld, ymweliadau astudiaeth achos, holiadur ac adolygiad llenyddiaeth.

Mae'r wybodaeth ar gael yn dynodi na fydd anghenion tai pobl hŷn yn cael eu cydweddu gan lety a gwasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd. Yn nhermau demograffig: mae pobl yn byw yn hirach; mae disgwyliad oes dynion a menywod yn cydgyfarfod; mae bywydau hirach yn debygol o olygu anghenion cymorth corfforol cynyddol. Yn nhermau deiliadaeth, bydd pobl eisiau aros yn eu cartrefi eu hunain mor hir â phosib. I nifer cynyddol o bobl hŷn mae hyn yn golygu cartrefi y maen nhw'n berchen arnynt ac y mae'n rhaid iddynt eu cynnal. O ran disgwyliadau safon byw, yn gyffredinol mae pobl hŷn eisiau lle mwy preifat na sydd fel arfer ar gael mewn llety arbenigol, ac eisiau parhau gyda'r ffordd o fyw y maen nhw wedi arfer ag ef, gyda chysylltiadau cymdeithasol a gweithgareddau hamdden

### 4.1 Ailfodelu gwasanaethau i gwrdd a dyheadau newidiol

Mae'r nifer cynyddol o bobl hŷn a'u dyheadau newidiol yn golygu y bydd yn rhaid addasu'r lefel bresennol o lety arbenigol a'r gwasanaethau a ddarparir er mwyn cwrdd â'r galw gan genedlaethau o bobl hŷn yn y dyfodol.

Yn wahanol i'r farn gyffredinol, dangosodd tai gwarchod confensiynol lefelau cyfartaledd o lefydd gwag mewn cymhariaeth gyda'r holl gynlluniau atebyddol a dangosodd tai dynodedig lefelau arbennig o isel, yn ôl yr holiadur. Dengys hyn bod galw'n dal i fodoli am y math yma o dai. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o sylwebyddion yn disgwyl i stoc tai gwarchod confensiynol ostwng yn y degawd i ddod.

Ble mae galw'n wan ar hyn o bryd, neu ble mae ymchwil yn dangos ei fod yn gwanhau, yn y lleoliadau mwyaf anghysbell ac yn achos stoc gwarchod hŷn gyda'r safonau gofod mwyaf cyfyng, dylai awdurdodau lleol ystyried addasu rôl y stoc gwarchod confensiynol.

Mae'r cynnydd yn oes disgwylidig dynion a'r ffaith ei fod yn dal i fyny gydag oes disgwylidig menywod yn awgrymu cynnydd yng ngoroesiad tai dau berson ymysg pobl mewn cryn oedran. Mae gan hyn oblygiadau eglur i'r rhai hynny sy'n darparu llety arbenigol gan fod y mwyafrif llethol wedi eu cynllunio ar gyfer pobl seagl gyda gofynion lle cymhedrol.

Disgwylir i'r galw am fathau gwell o dai gwarchod gynyddu wrth i boblogaeth y tenantiaid presennol heneiddio ac i oedran cyfartaledd pan ddynodir llety gynyddu. Disgwylir i ddatblygiad cynlluniau gofal ychwanegol maint canolig a mawr barhau. Fodd bynnag, mae yna berygl y bydd awdurdodau lleol yn gweld tai gofal ychwanegol fel math o lety sy'n addas ar gyfer pawb, pan nad yw yn addas ar gyfer pawb.

Bydd ymarferoldeb cynlluniau gofal ychwanegol yn y dyfodol yn dibynnu ar eu gallu i gynnig mwy nag ymateb i ddibyniaeth. Un bwlch amlwg yn narpariaeth llety arbenigol yw tai gofal ychwanegol ffordd o fyw. Er enghraifft, diddordebau a gweithgareddau<sup>18</sup> oedd y grŵp lleiaf cyffredin o gyfleusterau<sup>19</sup> yn ôl atebyddion yr holiadur, yn arbennig spa, ystafell ymarfer corff ac ystafell gyfrifiaduron. Gellir datblygu modelau gofal ychwanegol ffordd o fyw trwy gynlluniau newydd arloesol neu trwy wella ffurfiau presennol o dai gofal ychwanegol gyda gwasanaethau neu gyfleusterau ychwanegol.

Bydd y galw am bob categori o dai arbenigol ar sail perchnogaeth lwyr neu ran berchnogaeth yn cynyddu wrth i lefelau uchel o berchen feddiannu gyrraedd y cohort oedran hynaf. Bydd hyn yn ategu'r gofyn am dai gwarchod les ddaliad gan ddarparwyr masnachol a RSL ac am gynnig mathau gwell a gofal ychwanegol ar sail deiliadaeth cymysg.

Disgwylir i ofal preswyl, p'un ai darpariaeth presennol neu awdurdod lleol gynt neu gan ddarparwyr sector preifat, gael ei wasgu rhwng y cynnydd mewn mathau'n seiliedig ar gartref a'r galw am lefelau uwch o ofal i gwrdd ag anghenion pobl hŷn eiddil iawn a'r rhai sy'n drysu'n feddyliol neu gyda salwch meddwl. Disgwylir i'r ciliad gan ddarparwyr bach a welwyd dros y degawd diwethaf, barhau ac y bydd y rhai sydd ar ôl yn symud tuag at wasanaethau mwy arbenigol sy'n denu ffioedd uwch.

Roedd dementia yn isel ym mhob categori o lety ar wahân i ofal preswyl a nyrsio, ble roedd dros 40% o breswylwyr wedi eu heffeithio gan y cyflwr<sup>20</sup>. Awgryma hyn nad yw mathau eraill o lety yn gymwys i ddelio gyda dementia, er y bydd nifer cynyddol o bobl gyda'r cyflwr yn y dyfodol. Mae hyn yn awgrymu diffyg gwasanaethau i fynd i'r afael â'r cyflwr mewn sawl math o lety arbenigol.

<sup>18</sup> Roedd diddordebau a gweithgareddau yn cynnwys: ystafell ddiddordebau neu grefftai, ystafell gyfrifiaduron, llyfrgell, ystafell ymarfer corff, ystafell wydr, siop trin gwallt a spa.

<sup>19</sup> Roedd grwpiau eraill o gyfleusterau yn cynnwys: ystafell gyffredin; cyfleusterau'n gysylltiedig â bwyta; llety ymwelwyr; systemau larwm; cyfleusterau golchi dillad; glendid a thriniaethau; a chyfleusterau staff.

<sup>20</sup> Ecotec Research & Consulting (Hyd 2006) *Seiliau ar gyfer y dyfodol: Darparwyr a phreswylwyr llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru*

## 4.2 Cynnal tai o safon

Oni bai y gwelir cwmp dramatig mewn rhagolygon economaidd cenedlaethol, mae'n rhesymol i ddisgwyl y bydd cyflyrrau yn y stoc yn gyffredinol yn parhau i wella ymhellach. Yn y sector rhentu cyhoeddus, mae Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi gosod targed y bydd holl anheddau awdurdod lleol yn cwrdd â safonau Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2012. Mae'r pwysau i gyrraedd y safon yn annog sawl awdurdod i ystyried trosglwyddo'u stoc i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, all ddod a buddsoddiad newydd i'r sector.

### 4.2.1 Problemau gyda perchen feddianwyr

Er bod y prosiect hwn yn canolbwyntio ar fathau arbenigol o lety ar gyfer pobl hŷn, sydd gan fwyaf yn y sector cymdeithasol ar hyn o bryd, mae'r mwyafrif o bobl hyn yn byw yn eu cartrefi eu hunain (77% o aelwydydd gyda pherson rhwng 60-74 oed yn gynrychiolydd yn berchen feddianwyr), ac mae disgwyl i lefelau perchentaeth godi<sup>21</sup>.

Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd nifer arwyddocaol o bobl hŷn sy'n berchnogion tai yn y sector perchen feddiannu yn parhau i gael problemau gyda thrwsio, cynnal a gwella tai. Mae pobl hŷn ifanc (o 65 oed) yn tueddu i fod eisiau aros yn eu tai presennol am amser hirach a derbyn cymorth ac addasiadau i ganiatáu iddynt wneud hynny. Bydd y problemau yn fwy arwyddocaol i berchnogion tai syn byw mewn adeiladau hŷn neu o werth isel, neu sydd â'r incwm lleiaf, mewn ieuchyd gwael ac yn y grwpiau oedran hynaf.

Eto, yn y sector breifat, y ffactor mwyaf arwyddocaol a arweiniodd at wella cyflwr adeiladau oedd buddsoddiad gan berchnogion preifat eu hunain. Tra bod gan berchnogion, yn arbennig pobl sy'n berchen eu tŷ yn llwyr, y fantais o gael cyfoeth o ran gwerth eu tŷ, mae cael at y cyfoeth hwn yn golygu naill ai symud i lety rhent neu ddi-rent, symud i eiddo llai drud neu codi un o'r amryw gynlluniau rhyddhau ecwiti sydd ar y farchnad.

Amcangyfrifwyd bod ecwiti canol berchnogion tai yng Nghymru tua £120,000<sup>22</sup> yn 2005. Ond mae nifer o berchnogion tai yn anfodlon mynd ar ôl y ffynhonnell arian yma neu yn gweld cynlluniau sy'n gymorth iddynt wneud hynny fel gwerth sâl am arian. Fodd bynnag, nid yw'r ecwiti hwn yn cael ei ddsbarthu'n gyfartal ac mae gan nifer o bobl hŷn sy'n berchnogion tai lawer llai. Mae'n debygol mai dyma'r aelwydydd sydd angen gwario mwyaf ar drwsio ac adnewyddu, gan gyfyngu ar y gallu i fynd ar ôl y ffynhonnell hwn.

<sup>21</sup> ECOTEC Research & Consulting a Contact Consulting (2006) *Anghenion tai a gofal pobl hŷn yng Nghymru yn y dyfodol*

<sup>22</sup> ECOTEC Research & Consulting a Contact Consulting (2006) *Anghenion tai a gofal pobl hŷn yng Nghymru yn y dyfodol*

Mae'r dystiolaeth sydd ar gael ynglŷn â'r anghenion addasu yn golygu her o anhawster amrywiol. Mae'r seilwaith i gwrdd â'r angen ymddangosiadol am larymau cymuned yn bodoli'n barod ond mae problemau ynglŷn ag ymarferoldeb darparwyr llai, gweithrediad economaidd ac effeithlon y fath wasanaethau a'u potensial i gynnig gwasanaethau ehangach trwy ychwanegu dyfeisiadau newydd. Mae'r gallu i ymateb i angen am addasiadau bach fel rheiliau gafaél yn bodoli eisoes trwy gyfrwng gwasanaethau tasgbobl sy'n gysylltiedig gyda chynlluniau Gofal a Thrwsio. Mae angen ystyried cwestiynau polisi holl faes darparu offer ac addasu, yn arbennig ar gyfer y bobl hynny gyda lefelau isel i ganolig o angen.

Mae ymateb i anghenion sy'n golygu gwaith adeiladu mwy sylweddol – p'un ai lledaenu drysau, darparu toiled ar lefel byw annedd neu drosi cyfleusterau ymolchi – yn fwy problematig. Eto, mae gwasanaeth Gofal a Thrwsio yn darparu modd o gyflawni'r addasiadau hyn ond fe fydd cyllido'r lefel dynodedig o alw posib, naill ai trwy gyfrwng grant neu trwy annog buddsoddiad gan berchnogion, yn golygu her.

### 4.3 Crynodeb

- Mae'r nifer cynyddol o bobl hŷn a'u dyheadau newidiol yn golygu y bydd yn rhaid i'r lefel bresennol o lety arbenigol a'r gwasanaethau a ddarparir addasu i gwrdd â'r galw gan genedlaethau o bobl hŷn yn y dyfodol.
- Golyga'r cynnydd yn nisgwylid oes dynion y bydd galw cynyddol am ddarpariaeth ar gyfer cyplau, yn yr un modd y galw am dai gwarchod gwell wrth i'r oedran pan yn dyrannu gynyddu.
- Bydd ymarferoldeb cynlluniau gofal ychwanegol yn y dyfodol yn dibynnu ar eu gallu i gwrdd â dyheadau newidiol pobl hyn yn cynnwys y dyheadau yn ymwneud â ffordd o fyw.
- Mae'r lefel isel o dementia yn y cynlluniau yn yr arolwg yn awgrymu galw na ellir ymateb iddo mewn sawl math o lety arbenigol.
- Mae'r mwyafrif o bobl hŷn yn byw yn eu cartrefi eu hunain (77% o aelwydydd gyda phennaeth y tŷ rhwng 60-74 oed yn berchen feddianwyr). Yn y dyfodol, fe amcangyfrifir y bydd lefelau perchentaeth yn codi.
- Golyga lefelau uchel o berchen feddianwyr ymysg cohortiaid y bydd cynydd tebygol yn y galw am berchnogaeth lwyr neu ran berchnogaeth fel math o ddeiliadaeth mewn llety arbenigol.
- Fe all henoed ifanc (o 65 oed) ddymuno byw yn eu tai presennol am fwy o amser a derbyn cymorth addas ac addasiadau i ganiatáu iddynt wneud hynny. Pobl hŷn sy'n berchnogion tai ac sy'n byw mewn tai isel eu gwerth neu hŷn, neu ar yr incwm isaf, yn wael eu hiechyd neu yn y grŵp oedran hynaf fydd yn cael y problemau mwyaf arwyddocaol.

- Dengys y dystiolaeth o anghenion ar gyfer addasu sydd ar gael sialensiau o anawsterau amrywiol. Mae'r gallu i ymateb i anghenion bach fel rheiliau gafael yn bodoli eisoes. Mae ymateb i anghenion sy'n golygu gwaith adeiladu mwy sylweddol yn fwy problematig.

## 5 Argymhellion polisi

---

Mae'r astudiaeth hwn wedi archwilio gallu'r gwahanol gategorïau o dai gwarchod (a gofal preswyl) i ddarparu cymorth i bobl hŷn gyda gwahanol lefelau o anghenion fel y gellir datblygu golwg mwy cywir o bwrpas a rôl pob math o ddarpariaeth ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Mae'r adran hon yn nodi'r sialensiau allweddol ar gyfer tai i bobl hŷn ac yn cynnig deg argymhelliad i wella cynllunio, comisiynu a darparu llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn.

Mae'r amcanestyniadau demograffig yn syml. Amcanestynir y bydd y nifer o bobl dros 65 oed yng Nghymru yn cynyddu o 518,000 yn 2004 i 885,000 yn 2044, cynnydd o 71%. Erbyn 2044, amcanestynir y bydd y nifer o bobl 85 oed yn cynyddu o tua 217% i 190,000. Erbyn 2026, bydd aelwydydd gyda phennaeth sydd yn berson hŷn yn cyfrif am un rhan o dair o holl aelwydydd yng Nghymru.

Yn hanesyddol fe ddominyddwyd llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn gan dai gwarchod confensiynol, sy'n dal i gynrychioli bron i hanner y cynlluniau yn ein hymchwil. Er bod y galw am y fath yma o dai yn dal i fod yn gryf, mae'r rhan fwyaf o sylwebyddion yn disgwyl i'r stoc wanhau yn y degawd i ddod. Mewn rhai lleoliadau mae diffyg dewis amgen yn arwain pobl hŷn i dai gwarchod pan y byddai math amgen o lety yn fwy addas.

Mae darpariaeth arall yn dameidiog ac heb ddatblygu mewn modd sydd wedi ei gynllunio ar gyfer anghenion lleol. Mae bron i bob math o lety yn rhai i'w rhentu gyda chysylltiad cyfyng gan y sector breifat. Mewn cyferbyniad, mae datblygiadau newydd diweddar wedi bod mewn modelau o dai gofal ychwanegol, yn bennaf gan y sector gyhoeddus a'r sector landlord cymdeithasol cofrestredig. Ceir amryw o fodelau o dai gofal ychwanegol, yn seiliedig ar lefelau dibyniaeth a'r cyfleusterau a gwasanaethau a ddarparir. Tra bod ymarferyddion yn edrych at fodelau gofal ychwanegol, mae ei rôl datblygol a'r posibilrwydd o gwrdd â dewisiadau ffordd o fyw newidiol yn dal braidd yn anelwig.

Ar hyn o bryd mae'r rhan fwyaf o bobl hŷn yn byw yn eu cartrefi eu hunain, ac fe amcanestynir y bydd perchen feddiannu yn cynyddu yn y dyfodol, wrth i fwy o bobl ddewis aros yn eu cartrefi am fwy o amser. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd niferoedd arwyddocaol o berchen feddianwyr yn parhau i gael problemau gyda thrwsio, cynnal ac adnewyddu yn y dyfodol, heb sôn am anghenion gofal a chymorth. Bydd y problemau hyn yn fwyaf arwyddocaol i bobl hŷn sy'n berchnogion tai ac sy'n byw mewn tai hŷn neu sy'n isel o ran gwerth, neu sydd ar incwm isel, yn wael eu hiechyd ac yn y grwpiau oedran hynaf.

Mae'r cyfran o bobl hŷn yn amrywio yn ôl ardal, fel y dengys arolygon cenedlaethol a'r prosiect hwn. Yn gyffredinol mae'r boblogaeth yn is yn yr ardaloedd mwy trefol yn y de ac yn Wrecsam, ac yn fwy yn yr ardaloedd mwy gwledig yng nghanolbarth, gorllewin a



gogledd Cymru. Fodd bynnag, mae yna ddiffyg dealltwriaeth cyffredinol o anghenion a dyheadau cenedlaethau o bobl hŷn ar lefel leol.

Salwch meddwl a dementia oedd y ddau fath o nam lleiaf cyffredin ar draws yr holl atebyddion i'r ymchwil. Fodd bynnag, roedd dementia yn dal i effeithio ar dros 10% o breswylwyr, a graddfa debyg i broblemau medrusrwydd a throsglwyddo. Mewn gofal preswyl fodd bynnag, dementia oedd y pedwerydd nam mwyaf cyffredin, gan awgrymu bod preswylwyr gyda'r cyflwr hwn yn cael eu gorgynrychioli yn y fath leoliadau.

## 5.1 Argymhellion

Cynigir deg argymhelliad ar gyfer gwella cynllunio, comisiynu a darparu llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn, gan gydnabod y bydd y gallu i'w gweithredu yn dibynnu ar gyfyngiadau'r adnoddau ar gael a dylanwad blaenoriaethau sy'n cystadlu.

- 1 Dylai Llywodraeth y Cynulliad ddarparu canllaw i annog y defnydd o'r matrices diffiniol o fathau o lety arbenigol i bobl hŷn<sup>23</sup> i helpu comisiynwyr a darparwyr ar lefel leol i gytuno ar set o ddiffiniadau. Dylid gwneud hyn erbyn haf 2007. Bydd hyn yn help i ddatblygu dealltwriaeth rhwng darparwyr ac i ymarferyddion, gwneuthurwyr polisi a phreswylwyr posib i werthfawrogi'r rôl a chwaraeir gan bob cynllun.
- 2 Dylai Llywodraeth y Cynulliad annog datblygu targedau ar gyfer darparu amryw o gategoriâu o lety ar gyfer pobl hŷn trwy baratoi strategaethau llety awdurdodau lleol ar gyfer pobl hŷn. Dylai hyn ddigwydd ochr yn ochr â hyrwyddo'r matrices diffiniol, i'w wneud erbyn haf 2007. Byddai hyn yn rhoi dewis ehangach o lety ar gyfer pobl hŷn ac yn sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu'n strategol.
- 3 Dylai awdurdodau lleol gynllunio darpariaeth tai yn eu hardaloedd trwy gydweddu angen amcan estynedig gyda dyheadau pobl. Gallai hwn hefyd borthi'r gronfa ddata a grëwyd ar gyfer y prosiect hwn a dylai ddigwydd ochr yn ochr â datblygiad unrhyw strategaeth llety ar gyfer pobl hŷn ac arolwg aelwydydd ehangach. Er mwyn darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol rhaid cael dealltwriaeth o anghenion a dyheadau pobl hŷn.
- 4 Dylai Llywodraeth y Cynulliad ddarparu canllaw ar ddiffiniad, rôl a rheolaeth tai dynodedig ar gyfer pobl hŷn erbyn hydref 2007, i sicrhau bod gwasanaethau sydd wedi eu neilltuo ar gyfer y grŵp oedran hwn yn cael eu dyrannu'n iawn.
- 5 Trwy gyfrwng canllaw, ni ddylai Llywodraeth y Cynulliad annog gosod tai gwarchod i bobl, oherwydd oedran neu natur eu hanghenion cymorth, allai gael eu cartrefu mewn llety arall

<sup>23</sup> I'w weld yn Contact Consulting a ECOTEC Research & Consulting (2006) *Llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru: Adroddiad ar yr astudiaethau achos*

mwy addas. Dylid cwblhau'r fath ganllaw erbyn hydref 2007. Dylai'r canllaw gael ei gyflwyno i drefniadau rheolaeth perfformiad ac arolygaeth, i'w datblygu erbyn Ebrill 2008. Byddai hyn yn sicrhau bod preswylwyr yn cael eu lletya gyda lefelau digonol o ofal a bod y rhai hynny sydd heb anghenion ychwanegol yn cael cyfle i symud i dai gwarchod.

- 6 Dylai Llywodraeth y Cynulliad annog awdurdodau lleol i baratoi arfarniadau dewis ar gyfer holl dai gwarchod cymdeithasol, gan gynnig canllawiau a hyfforddiant fel bo'n addas. Dylai hyn gyd fynd gyda'r argymhelliad uchod, i'w ddarparu rhwng hydref 2007 ac Ebrill 2008. Byddai hyn yn sicrhau bod darparwyr yn deall unrhyw benderfyniadau i ailfodelu, gan gynnwys ehangu fflatiau un ystafell llai i unedau dwy lofft er enghraifft.
- 7 Trwy ddarparu cyllid, ni ddylai Llywodraeth y Cynulliad annog datblygu modelau dibyniaeth uchel o ofal ychwanegol ond yn hytrach annog modelau amgen sy'n hyrwyddo poblogaethau dibyniaeth cymysg. Mae'r modelau blaenorol hyn yn creu segurddod, gyda lefelau dibyniaeth yn gwaethygu, ac yn cynnig llawer llai o gyfle am gefnogaeth cymheiriaid ymysg preswylwyr.
- 8 Dylai Llywodraeth y Cynulliad annog yn weithredol datblygiad rôl cymunedol staff penodol-i-gynllun fel y gellir darparu rhaglen mwy bywiog, perthnasol a deniadol o weithgareddau mewn llety arbenigol i bobl hŷn. Dylid gwneud hyn ym mhob math o lety ar gyfer pobl hŷn. Dylai hyn ddigwydd ar sail parhaol, gan gychwyn yn hydref 2007 a dylid ei ddarparu trwy gynnig canllaw a hyfforddiant, a bydd yn help i wella'r gwasanaethau a chyfleusterau sydd ar gael i bobl hŷn.
- 9 Dylai Llywodraeth y Cynulliad greu grŵp gweithio i archwilio pa anogaeth y gellir ei roi i ddatblygwyr preifat i rannu yn y broses o gwrdd ag anghenion perchen feddianwyr hŷn am amrywiaeth o ddewisiadau i gwrdd â'u hanghenion llety a gofal. Dylai hyn ddigwydd erbyn hydref 2007 a byddai'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sector breifat. Gyda graddfeydd isel iawn o ddarpariaeth ar hyn o bryd, byddai ymrwymo'r sector breifat yn golygu buddsoddiad cyfalaf ac yn help i ddarparu ar gyfer y cynnydd disgwyliedig mewn perchen feddiannu.
- 10 Er mwyn cynnal tai o safon uchel yn y sector breifat, dylai Llywodraeth y Cynulliad annog pobl hŷn a phobl sy'n dynesu at hennaint i fuddsoddi yn eu cartrefi. Gellir gwneud hyn trwy gyfrwng llenyddiaeth addas. Dylai hyn ddigwydd erbyn hydref 2007 a gellid ei ddatblygu law yn llaw gyda Gofal a Thrwsio Cymru. Yn ogystal, dylid targedu mentrau a grantiau at grwpiau bregus o berchen feddianwyr i helpu cynnal safon tai gweddus a chyfyngu ar yr angen am ofal a chymorth ychwanegol yn y tymor hirach.

## 6 Geirfa

---

**Tai Abbeyfield** Math arbennig o dai gwarchod, yn cynnwys rheolwr tŷ a staff glanhau ac arlwyo, gyda phoblogaeth gyda mwyafrif o fenywod hŷn, ond mwy annibynnol.

**Safonau mynediad** Gofynnodd ein arolwg am dri math o safon hygyrchedd: Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru, mynediad i gadair olwyn a mynediad safonol.

**Addasiad** Addasiadau i wneuthuriad corfforol adeiladau i hwyluso newid mewn anghenion iechyd corfforol a meddyliol, fel rheiliau gafael, addasu ystafell ymolchi ac esgynyddion.

**Gofal a Thrwsio** Mae gwasanaethau Gofal a Thrwsio yn cynnig cyngor a chymorth gyda thrwsio, addasu ac adnewyddu tai, fel y gall tai pobl aros yn addas ar gyfer eu hanghenion.

**Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru** Mae'r CSIW yn rheoleiddio gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan gynnwys safonau ar gyfer tai gwarchod i bobl hŷn. Y safonau hyn yw'r rhai uchaf o'r tri a restrir ac, ar gyfer eiddo, maent yn cynnwys darpariaethau manwl ynglŷn â lle ac ystafelloedd unigol, ardaloedd cymunol, mynediad hawdd i doiledau a chyfleusterau ymolchi, ac addasiadau ac offer (ee rampiau a rheiliau gafael).

**Cynlluniau Categori Un** Cynlluniau tai gwarchod, byngalos fel arfer, gyda chyfleusterau cymunol cyfyng ac heb warden preswyl.

**Cynlluniau Categori Dau** Cynlluniau tai gwarchod sydd fel arfer yn flociau o fflatiau gydag amrywiaeth o gyfleusterau cymunol a warden preswyl.

**Tai gwarchod confensiynol** Y math mwyaf cyffredin o lety arbenigol ar gyfer pobl hyn. Poblogaeth sy'n annibynnol fel arfer, yn byw mewn unedau hunangynhaliol, fel arfer wedi eu rhentu ond gyda rhywfaint o les ddaliad, ond yn rhannu chyfleusterau cymunol ac yn cael eu staffio gan reolwr cynllun.

**Matrics diffiniol** Y matrics o wahanol fathau o lety arbenigol ar gyfer pobl hân, wedi ei ddatblygu yn ystod y prosiect hwn.

**Tai dynodedig** Stoc cymdeithasol cyffredinol wedi ei rentu, byngalos fel arfer, wedi eu dynodi ar gyfer pobl hŷn annibynnol.

**Larymau gwasgarog** Gwasanaeth larwm sy'n rhoi tawelwch meddwl i bobl sy'n teimlo eu bod mewn perygl yn eu cartrefi eu hunain. Gwasanaeth monitro 24 awr 365 diwrnod yn rhoi rhyddid i fyw yn annibynnol gan wybod bod cymorth wrth law pan fo'i angen. Hefyd yn cael eu galw'n larymau cymunedol.

**Cwnsler Llety i'r Henoed (EAC)** Nod yr EAC yw helpu pobl hŷn i wneud dewis gwybodus ynglŷn â chwrdd a'u hanghenion tai a gofal. Mae'n cynnwys cronfa ddata o ddarparwyr tai a gofal.

**Gofal ychwanegol mewn tai gwarchod** Tai gwarchod gyda chyfleusterau gofal ychwanegol ar gyfer poblogaeth gyda dibyniaethau cymysg, fel arfer yn darparu gwasanaethau a gweithgareddau eraill.

**Tai gwarchod gofal ychwanegol dibyniaeth uchel** Tai gofal ychwanegol ble mae gan y mwyafrif o breswylwyr lefelau gofal canolig i uchel.

**Cymorth cadw tŷ** Gwasanaethau i helpu pobl i gynnal eu cartrefi, fel glanhau.

**Tai gofal ychwanegol ffordd o fyw** Math dyheadol o dai gofal ychwanegol yn darparu ar gyfer poblogaeth dibyniaeth cymysg ond yn darparu rhaglen amrywiol o weithgareddau hamdden, cymdeithasol a diwylliannol.

**Tai gofal ychwanegol dibyniaeth cymysg** Tebyg i'r gofal ychwanegol mewn tai gwarchod ond gyda phoblogaeth cymysg, wedi ei rannu'n fras i un rhan o dair heb anghenion gofal ar hyn o bryd, un rhan o dair gydag anghenion isel i ganolig ac un rhan o dair gydag anghenion gofal uchel.

**Cartrefi nyrsio** Cyfleusterau trwyddedig sy'n darparu gwasanaethau nyrsio neu ofal personol i bobl sydd yn eiddil neu yn dioddef o salwch cronig, er nid o anghenraid o'r boblogaeth hŷn, eto'n cwrdd â safonau CSIW.

**Pobl hŷn** Mae hyn yn cyfeirio'n gyffredinol at bobl 65 oed neu hŷn, er bod rhai ffynonellau data'n cychwyn yn 60.

**Larymau ar leoliad** Gwasanaeth larwm sydd yn rhan o lety arbennig, er enghraifft i ddarparu sicrwydd dros nos. Caiff neges ei yrru i ganolfan monitro sydd wedi ei staffio 24 awr. Bydd y ganolfan yn gwybod cyfeiriad yr alwad a bydd naill ai'n ceisio siarad gyda'r preswlydd neu yn galw ar gymydog, deulu neu'r gwasanaethau brys.

**Gofal personol** Gwasanaethau sy'n cynnwys cymorth gyda gwisgo, bwydo, ymolchi a mynd i'r tŷ bach, yn ogystal â chynghor, anogaeth a chefnogaeth emosiynol a seicolegol.

**Tai gwarchod cofrestredig** Llety a staffio sy'n cwrdd â safonau CSIW i roi llety i boblogaeth gydag anghenion sy'n gofyn am lai o ofal na chartrefi nyrsio.

**Teleofal** Monitro argyfyngau amser real a newidiadau ffordd o fyw dros amser yn barhaus, awtomatig ac o bell, er mwyn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â byw yn annibynnol trwy ddefnydd dyfais di-wifr sydd wedi ei gysylltu trwy borth yn y cartref i Ganolfan Monitro ac Ymateb neu yn uniongyrchol i ofalwyr.

**Safon Ansawdd Tai Cymru** Safon cyffredin ar gyfer cyflwr corfforol tai yng Nghymru, ble mae'n rhaid i landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru sicrhau bod eu hadeiladau yn cwrdd â'r safon erbyn 2012. Mae'r safon yn gofyn bod pob cartref yn gorfod cael gwres digonol, bod yn effeithlon o ran tanwydd ac wedi eu hinsiwleiddio yn dda.